YSGOL BRO TEIFI

oni heuir ni fedir

# Pecyn Recriwtio i Ymgeiswyr

# Cynorthwy-ydd Dysgu Lefel 3 (Arweinydd Clwb yr Enfys)

## Parhaol

## Llawn amser, adeg tymor yn unig

Cyflog – Gradd 6 SCP 7-10



Dyddiad Dechrau :

1af Medi 2025

Dyddiad Cau:

18fed Mehefin 2025

# **Hysbyseb Swydd**

Cynorthwy-ydd Dysgu Lefel 3 (Arweinydd Clwb yr Enfys)

Gradd 6 scp 7-10 (pro-rata), 32.5 awr

o Fis Medi 2025

Annwyl ddarpar ymgeisydd,

Diolch am ddangos diddordeb yn y swydd Cynorthwy-ydd Dysgu Lefel 3 (Arweinydd Clwb yr Enfys) yn Ysgol Bro Teifi; ein darpariaeth pwrpasol ar gyfer disgyblion oed cynradd gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Yn y rôl hon byddwch yn cydlynu, trefnu a darparu cyfleoedd amgen i ddisgyblion er mwyn datblygu eu sgiliau sylfaenol. Bydd prif ddyletswyddau'r rôl yn ymwneud â darparu cwricwlwm wedi ei addasu, mewn cydweithrediad ag athrawon ac arweinwyr ADY mewnol ac allanol . O fewn y rôl byddwch hefyd yn arwain a chefnogi aelodau o staff eraill er mwyn diwallu anghenion ein disgyblion. Mae'r gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon.

## **Ble fyddwch yn gweithio?**

Ysgol gydol oed 3-19 yw Ysgol Bro Teifi wedi ei leoli y tu allan i dref Llandysul yn ne-ddwyrain Ceredigion. Mae rhyw 45 munud o daith o ddiwedd yr M4 a 30 munud o dref Caerfyrddin. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal wledig, Gymreig gyda thua 79% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg yn rhugl a bron i 64% yn siarad Cymraeg yn y cartref.



Agorwyd yr ysgol ym Medi 2016, yn dilyn buddsoddiad o £30m gan Gyngor Sir Ceredigion a Llywodraeth Cymru. Bro Teifi ydy'r ysgol pob-oed, cyfrwng Cymraeg cyntaf yng Nghymru ac mae'n cynnig cyfleusterau dysgu o'r radd flaenaf ar gyfer yr holl ddisgyblion, o'r lleiaf i'r hynaf.

Mae Clwb yr Enfys yn gwneud defnydd o ystafelloedd pwrpasol o fewn ardal oed cynradd yr ysgol sydd yn cynnwys ystafell ddosbarth, gofod allanol ac ystafell aml-synhwyraidd.

Ers iddi agor mae nifer y disgyblion wedi cynyddu'n sylweddol ac ar hyn o bryd, mae oddeutu 850 o ddisgyblion yn yr ysgol gan gynnwys tua 85 yn y chweched dosbarth.

Arolygwyd yr ysgol gan Estyn yn Nhachwedd 2024 ac adroddwyd bod:

*"...staff a disgyblion Ysgol Bro Teifi yn cydweithio'n agos i greu awyrgylch deuluol a chynnal ethos cynhwysol a gofalgar. Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn ac yn sicrhau bod popeth sydd eu hangen arnynt o ran gofal a chefnogaeth ar gael yn ddi-rwystr. O'r*

*dysgu sylfaen i'r chweched dosbarth, mae'r disgyblion yn gwireddu arwyddair yr ysgol, 'Oni heuir, ni fedir', yn llwyddiannus, gan fanteisio ar y cyfleoedd i ddatblygu'n ddinasyddion cyfrifol, parchus a charedig."*

*Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda yn eu gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn dangos parch at ei gilydd ac at staff ac maent yn annwyl a chroesawgar gydag ymwelwyr.*

*"Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gryfder. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ADY yn gwneud cynnydd cryf yn erbyn eu targedau. Mae'r ddarpariaeth ychwanegol a geir yn y canolfannau 'Hafan','Clwb Cwtsh' a 'Chlwb yr Enfys' yn cyfrannu'n werthfawr iawn at y gofal a'r gynhaliaeth i ddisgyblion sydd eu hangen."*



I ddysgu mwy am ein ysgol, ewch i'n gwefan [www.ysgolbroteifi.cymru](www.ysgolbroteifi.cymru)

**Os am drafodaeth anffurfiol ynglŷn â'r swydd hon neu i gael taith o amgylch yr ysgol cyn cyflwyno cais, cysylltwch â'r Cydlynydd ADY, Mrs Cei Pryderi ar 01559 362503 neu drwy e-bost, PryderiC7@broteifi.ceredigion.sch.uk.**

## ***Diogelu***

*Mae diogelu ac amddiffyn plant yn flaenoriaethau allweddol i ni. Ein nod yw cefnogi plant, pobl ifanc a'r rhai sydd mewn perygl i sicrhau eu bod mor ddiogel ag y gallant fod. Rydym yn cydnabod bod gan blant, pobl ifanc a'r rhai sydd mewn perygl hawl i gael eu a byddwn yn cymryd camau i ddiogelu'u lles. Disgwylir i bob aelod o staff a gwirfoddolwr rannu'r ymrwymiad hwn, a bydd angen Gwiriad Gwell gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), CRB gynt.*






YSGOL BRO TEIFI

# EIN GWERTHOEDD CRAIDD

## PARCH

## UCHELGAIS

## CAREDIGRWYDD

## CYMREICTOD

## TEGWCH

## GWYDNWCH

oni heuir ni fedir

YSGOL BRO TEIFI

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| Teitl y Swydd | Cynorthwy-ydd Dysgu Lefel 3 (Arweinydd Clwb yr Enfys) |
| Lleoliad | Ysgol Bro Teifi |
| Oriau Gwaith | Llawn Amser |
| Math o Gontract | Parhaol |
| Hyd y Contract | Parhaol |
| Teitl swydd y Rheolwr Llinell Uniongyrchol | CADY |
| Dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol i'r swydd hon | • Cynllunio a darparu cyfleoedd i ddisgyblion ADY cynradd i ddatblygu sgiliau bywyd pwysig drwy brofiadau cyfoethog, bywyd go-iawn o fewn y darpariaeth Clwb yr Enfys.<br>• Targedu ymyraethau i ddysgwyr penodol er mwyn sicrhau cynnydd priodol yn eu medrau.<br>• Gyda mewnbwn athrawon ac arbenigwyr, cynllunio, amserlenni a darparu ymyraethau penodol ar lefel 1:1 ac o fewn grwpiau bach.<br>• Arwain tîm bach o staff o fewn darpariaeth Clwb yr Enfys.<br>• Cydweithio gyda thîm cynhwysiant ac athrawon yr ysgol i ddiwallu anghenion dysgwyr.<br>• Cefnogi anghenion personol disgyblion yn unol â chanllawiau gofal personol yr ysgol.<br>• Ymgymryd â hyfforddiant perthnasol i'r rôl.<br><br>NODER:<br>Disgwylir agwedd hyblyg at ddyletswyddau'r swydd, gan fod anghenion y gwasanaeth yn newid. Fe wneir hynny'n unol â gofynion yr ysgol a'r swydd ac yn dilyn trafodaeth gyda deiliad y swydd. |
| Disgrifiad Swydd Generig – Cynorthwy-ydd Addysgu Lefel 3 – Cefnogi a Chyflwyno Dysgu | • Gweithio o dan arweiniad uwch aelodau o'r staff/staff addysgu ac o fewn system gytunedig o oruchwyliaeth<br>• Gweithredu rhaglenni gwaith cytunedig gydag unigolion / grwpiau, oddi mewn neu oddi allan i'r ystafell ddosbarth. Gallai hyn olygu'r rhai sy'n galw am wybodaeth fanwl ac arbenigol mewn rhai meysydd, a bydd yn golygu cynorthwyo'r athro neu'r athrawes gyda'r cylch cynllunio cyflawn, yn ogystal â rheolaeth staff a rheoli/paratoi adnoddau.<br>• O bryd i'w gilydd hefyd, gall staff oruchwylio dosbarthiadau cyfan yn ystod absenoldeb byr-dymor athrawon. Bydd y prif bwyslais ar gynnal disgyblaeth dda a chadw'r disgyblion wrth eu gwaith. |

Cefnogi disgyblion

- Goruchwylio a darparu cefnogaeth neilltuol i ddisgyblion, gan gynnwys y rheiny ag anghenion arbennig, gan sicrhau eu bod yn ddiogel a bod ganddynt fynediad at weithgareddau dysgu.
- Defnyddio profiad/hyfforddiant/sgiliau arbenigol (cwricwlaidd/dysgu) i gefnogi disgyblion.
- Cynorthwyo gyda rheolaeth Cynlluniau Addysg/Ymddygiad Unigol a rhaglenni Gofal Personol.
- Sefydlu perthynas adeiladol gyda'r disgyblion, gan ryngweithio â hwy yn unol â'u hanghenion unigol.
- Sefydlu perthynas waith gynhyrchiol gyda'r disgyblion, gan weithredu fel patrwm ymddwyn a gosod disgwyliadau uchel.
- Hyrwyddo cynhwysiant a derbyniad i'r holl ddisgyblion
- Rhoi cefnogaeth gyson i'r disgyblion gan gydnabod ar yr un pryd eu hanghenion unigol, ac ymateb iddynt.
- Gosod disgwyliadau heriol sy'n gofyn llawer, a hyrwyddo hunan-werth ac annibyniaeth
- Herio a symbylu disgyblion, hyrwyddo ac atgyfnerthu hunan-werth.
- Annog disgyblion i ryngweithio ac i weithio ar y cyd gydag eraill, a chynnwys yr holl ddisgyblion yn y gweithgareddau
- Hyrwyddo annibyniaeth a defnyddio strategaethau i gydnabod a gwobrwyo cyflawniad yn deillio o hunanddibyniaeth
- Annog disgyblion i weithredu'n annibynnol, fel y bo'n briodol
- Rhoi adborth i ddisgyblion ynghylch cynnydd a chyflawniad

Cefnogi'r Athro neu'r Athrawes

- Gweithio gyda'r athro neu'r athrawes i sefydlu amgylchedd dysgu priodol
- Gweithio gyda'r athro neu'r athrawes ar gynllunio gwersi, gwerthuso a diwygio gwersi/cynlluniau gwaith fel y bo'n briodol
- Monitro a gwerthuso ymateb disgyblion i weithgareddau dysgu drwy arsylwi a chadw cofnod cynlluniedig o gyflawniad ar sail amcanion dysgu gosodedig
- Rhoi adborth gwrthrychol a chywir yn ôl y gofyn, ynghyd ag adroddiadau, i'r athro neu'r athrawes ynghylch cyflawniad, cynnydd a materion eraill sy'n ymwneud â'r disgyblion, gan sicrhau argaeledd y dystiolaeth briodol
- Bod yn gyfrifol am gadw cofnodion a'u diweddaru yn unol â'r hyn a gytunwyd gyda'r athro neu'r athrawes,

gan gyfrannu tuag at adolygu systemau/cofnodion yn ôl y gofyn

- Ymgymryd â marcio gwaith y disgyblion a chadw cofnod cywir o gyflawniad/cynnydd
- Hyrwyddo gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol, ac ymddygiad da, ymhlith y disgyblion, gan ddelio ar unwaith gyda gwrthdaro ac unrhyw ddigwyddiadau, yn unol â'r polisi sefydledig, ac annog disgyblion i fod yn gyfrifol am eu hymddygiad eu hunain
- Cydlynu'n effeithiol a sensitif, o fewn eich swyddogaeth/cyfrifoldeb, gyda'r rhieni/gwarchodwyr yn unol â'r hyn a gytunwyd gyda'r athro neu'r athrawes, a chymryd rhan mewn sesiynau/cyfarfodydd adborth gyda'r rhieni/gwarchodwyr, neu'n unol â'r cyfarwyddyd
- Gweinyddu ac asesu profion arferol a goruchwylio arholiadau/profion
- Darparu cefnogaeth gyffredinol, yn glerigol/gweinyddol e.e. gweinyddu gwaith cwrs, cynhyrchu taflenni gwaith ar gyfer gweithgareddau cytunedig, ac ati.

Cefnogi'r Cwricwlwm

- Cefnogi disgyblion i gael mynediad i'r cwricwlwm
- Gweithredu gweithgareddau dysgu/rhaglenni addysgu y cytunwyd arnynt, gan addasu'r gweithgareddau yn ôl ymateb/anghenion y disgyblion
- Gweithredu strategaethau dysgu lleol a chenedlaethol e.e. llythrennedd, rhifedd, CA3, y blynyddoedd cynnar, a gwneud defnydd effeithiol o gyfleoedd a ddaw o weithgareddau dysgu eraill i gefnogi datblygiad sgiliau perthnasol
- Cefnogi'r defnydd o TGCh mewn gweithgareddau dysgu, gan ddatblygu hyfedredd disgyblion a'u hannibynniaeth fel defnyddwyr y dechnoleg
- Cynorthwyo'r disgyblion i gael mynediad at weithgareddau dysgu drwy gyfrwng cefnogaeth arbenigol
- Penderfynu ar yr angen am offer ac adnoddau cyffredinol ac arbenigol, eu paratoi, a'u cynnal a'u cadw

Cefnogi'r Ysgol

- Bod yn ymwybodol o bolisïau a threfniadaethau perthnasol, gan gydymffurfio â hwy, yn ymwneud ag amddiffyn plant, iechyd, diogelwch a sicrwydd, cyfrinachedd a gwarchod data, a chyflwyno adroddiad ar bob testun pryder i berson priodol
- Bod yn ymwybodol o wahaniaethau a'u cefnogi, a sicrhau bod gan yr holl ddisgyblion fynediad cyfartal i'r cyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu

- Cyfrannu tuag at ethos/gwaith/amcanion cyffredinol yr ysgol
- Sefydlu perthynas adeiladol gyda phobl eraill gan gyfathrebu gydag asiantaethau/gweithwyr proffesiynol eraill, mewn cydweithrediad â'r athro neu'r athrawes, er mwyn cefnogi cyflawniad a chynnydd y disgyblion
- Mynychu cyfarfodydd rheolaidd a chymryd rhan ynddynt
- Cymryd rhan mewn hyfforddiant a gweithgareddau dysgu eraill yn ôl y gofyn
- Cydnabod eich cryfderau a'ch meysydd arbenigol eich hunan a defnyddio'r rhain i gynghori a chefnogi eraill
- Darparu arweiniad a goruchwyliaeth briodol a chynorthwyo gyda hyfforddiant a datblygiad staff fel y bo'n briodol
- Ymgymryd â goruchwylio cynlluniedig disgyblion mewn gweithgareddau dysgu yn ystod oriau tu allan i'r ysgol
- Goruchwylio disgyblion ar ymweliadau, gwibdeithiau, a gweithgareddau y tu allan i'r ysgol, yn ôl y gofyn

Dyletswyddau Penodol Arall

- Tra bod pob ymdrech wedi'i wneud i egluro'r prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd, efallai na fydd pob tasg unigol a wnaed yn cael eu nodi.
- Bydd yn disgwyl i weithwyr cydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol gan reolwr i ymgymryd â gwaith ar lefel debyg nas pennir yn y disgrifiad swydd.

Mae disgwyl i weithwyr fod yn gwrtais tuag at weithwyr eraill a darparu amgylchedd croesawgar i ymwelwyr a phobl sy'n galw dros y ffôn.

- Bydd yr ysgol yn ymdrechu i wneud unrhyw addasiadau rhesymol i'r swydd a'r amgylchedd gwaith i alluogi mynediad i gyfleoedd cyflogaeth i ymgeiswyr anabl.

Mae'r disgrifiad swydd yma yn gyfredol ar hyn o bryd ar y dyddiad a ddangosir, ond drwy ymgynghori â chi, fe ellir ei newid gan y Pennaeth neu, yn ystod trafodaethau adolygiadau rheoli Perfformiad, gan eich Rheolwr cyswllt i adlewyrchu neu i ragweld newidiadau yn y swydd sy'n gymesur â graddfa a theitl y swydd. Bydd angen trafod y swydd disgrifiad yn flynyddol a'i llofnodi.

| Manyleb Person | | |
|---|---|---|
| | **Hanfodol** | **Dymunol** |
| Y cymwysterau academaidd/proffesiynol/ technegol/galwedigaethol (gan gynnwys Lefel y cymwysterau) sy'n ofynnol ar gyfer y swydd | • Sgiliau rhifedd / llythrennedd da<br>• CGC 3 (Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol – NVQ) Cynorthwywyr Addysgu **neu** gymhwyster **neu** brofiad cyfwerth | • Cymhwyster Cymorth Cyntaf |
| Sgiliau ymarferol/personol sy'n ofynnol ar gyfer y swydd | • Y gallu i gyfathrebu'n llawn drwy'r Gymraeg<br>• Y gallu i ddod ymlaen yn dda gyda phlant ac oedolion<br>• Y gallu i ddefnyddio TGCh yn effeithiol i gefnogi'r dysgu<br>• Gwybodaeth drylwyr o bolisïau/codau ymarfer perthnasol, ac ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth berthnasol.<br>• Gwybodaeth ddigonol o'r cwricwlwm a rhaglenni/strategaethau dysgu perthnasol eraill.<br>• Dealltwriaeth o egwyddorion datblygiad a phrosesau dysgu'r plentyn.<br>• Y gallu i hunanwerthuso anghenion dysgu ac ymdrechu i chwilio am gyfleoedd dysgu.<br>• Gweithio'n adeiladol a hyblyg yn rhan o dîm, deall cyfrifoldebau a swyddogaethau'r ystafell ddosbarth a'ch safle bersonol o fewn y swyddogaethau hynny. | • Medrau digidol wedi eu datblygu yn gadarn |
| Profiad sy'n ofynnol ar gyfer y swydd | • Profiad o weithio gyda phlant o'r oed perthnasol mewn amgylchedd ddysgu.<br>• Profiad o weithio gyda disgyblion gydag anghenion ychwanegol. | • Profiad o arwain staff |
| Hyfforddiant/addysg y mae'n ofynnol eu cyflawni/mynd ati i'w cyflawni ar gyfer y swydd | • Hyfforddiant Amddiffyn Plant *<br>• Hyfforddiant PREVENT * | • Hyfforddiant perthnasol i'r rôl e.e. rhaglen cynnal sylw, cyfathrebu cyflawn a.y.b. |

| Lefel y sgiliau ieithyddol sy'n ofynnol ar gyfer y swydd<br><br>(Gweler y canllawiau iaith a'r ceri \| net ) | Gweler y tabl isod. | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Gwrando/ Siarad | Darllen | Ysgrifennu | |
| Saesneg (Lefelau Fframwaith ALTE) | 4 | 4 | 4 | Hanfodol |
| Cymraeg (Lefelau Fframwaith ALTE) | 4 | 4 | 4 | Hanfodol |









oni heuir ni fedir

YSGOL BRO TEIFI







